Cyngor Cymuned Pontarfynach – Dim Gwrthwynebiad

Priffyrdd Ceredigion – Dim gwrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau

Draenio Tir Ceredigion – Dim gwrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau

Ecoleg Ceredigion – Heb wneud sylw

Er nad yw cyngor cymuned Pontarfynach yn gwrthwynebu'r cynnig, maent yn gwrthwynebu defnyddio ceisiadau cynllunio ôl-weithredol. Mae cais cynllunio ôl-weithredol yn ddyfais ddeddfwriaethol gyfreithlon a ddefnyddir i reoleiddio sefyllfaoedd cynllunio lle mae rheolaeth gynllunio wedi'i thorri.

Derbyniwyd un llythyr gwrthwynebu trydydd parti gan breswylwyr yr eiddo cyfagos. Mae'r gwrthwynebiad yn canolbwyntio ar natur ôl-weithredol y cais cynllunio a'r niwed i'w hamwynder nhw o ganlyniad i'r datblygiad, a hynny oherwydd bod cerddoriaeth uchel yn cael ei chwarae ac nad oes ffens rhwng y ddwy ardd.

CASGLIAD

Dywed Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004: "Os rhoddir ystyriaeth i'r cynllun datblygu er mwyn gwneud penderfyniad o dan y Deddfau Cynllunio, bydd yn rhaid i'r penderfyniad hwnnw fod yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall".

Egwyddor Datblygu

Twristiaeth yw un o brif sectorau cyflogaeth y Sir, ac un o amcanion y CDLI yw datblygu ei heconomi dwristiaeth mewn modd cynaliadwy drwy:

- Annog datblygu twristiaeth gynaliadwy;
- Helpu i wella atyniad Ceredigion fel cyrchfan dwristiaeth gydol y flwyddyn;
- Sicrhau bod llety twristiaeth yn cael ei ddatblygu mewn modd cynaliadwy a'i leoli'n briodol; ac
- Annog darparu rhagor o atyniadau a chyfleusterau twristiaeth.

Mae'r cais yn ceisio caniatâd cynllunio ôl-weithredol i godi caban i'w ddefnyddio fel llety gwyliau ac felly Polisi LU14 y CDLI sydd fwyaf perthnasol. Mae safle'r cais y tu allan i Ardal yr Arfordir gan ei fod i'r dwyrain o'r A487 ac felly mae maen prawf 2 o'r polisi yn berthnasol. Mae'r polisi'n caniatáu ar gyfer cabanau a chalets gwyliau newydd ar yr amod bod y datblygiad yn bodloni'r 4 maen prawf canlynol:

- “bydd, lle bo hynny'n bosibl, yn cefnogi canolbwyntiau twristiaeth strategol;
- bydd yn cefnogi rôl a swyddogaeth yr anheddiad y bwriedir lleoli'r safle ynddo (neu, fel arall, yr anheddiad agosaf), lle mae'n bosibl, drwy ddarparu cyfleusterau ychwanegol sydd ar gael at ddefnydd y gymuned;
- nid yw'r cyfleusterau a gynigir drwy'r safle yn effeithio ar ddichonoldeb gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yn yr anheddiad agosaf; a
- cyflwynir asesiad o'r Anghenion Twristiaidd ac Effeithiau Datblygu fel rhan o'r broses ymgeisio.”

Ystyrir bod y cynnig yn bodloni'r meini prawf uchod ac y bydd yn cyfrannu at ddiffyg cyffredinol mewn llety twristiaeth y tu allan i ardal yr arfordir. Mae'r asesiad o'r effaith ar dwristiaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais cynllunio yn nodi:

"Mae'r llety gwyliau yn cefnogi'r economi leol heb effeithio ar y dirwedd na chyfleusterau eraill ym Mhontarfynach. Mae'r safle o fewn pellter cerdded hawdd i Westy'r Hafod ar gyfer prydau gyda'r nos, y siop leol ar gyfer darpariaethau cyffredinol, ac atyniadau megis Rheilffordd Cwm Rheidol a rhaeadrau Pontarfynach, ac ymhellach i ffwrdd mae Ystâd Hafod, Nant yr Arian ac Aberystwyth".

Fel y trafodwyd, mae safle'r cais ar gyrion Pontarfynach sy'n cael ei nodi fel canolfan gwasanaethau gwledig yn y CDLI. Felly, ystyrir bod lleoliad y llety gwyliau yn cydymffurfio â strategaeth gyffredinol y CDLI fel y'i nodir ym mholisiâu S01-S04, ac mae'r datblygiad yn cefnogi rôl a swyddogaeth yr anheddiad yn unol â maen prawf 2 ii o Bolisi S04.

Tirwedd, Dyluniad a Chymeriad

Mae'r datblygiad hwn yn gorwedd o fewn cwrtil annedd, mae'r plot yn fawr ac mae'r caban wedi'i leoli mewn ardal ddiarffordd ac wedi'i guddio o bob cyfeiriad gan lystyfiant, gan leihau unrhyw effaith ar gymdogion neu'r dirwedd. O'r herwydd, ystyrir na fyddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar ardal tirwedd arbennig Cwm Rheidol.

Priffyrdd

Mae'r ymgeisydd yn derbyn bod y mynediad yn ei ffurf bresennol yn is-safonol, ac mae'r Awdurdod Priffyrdd Lleol o'r farn y byddai'r cynnydd ym mha mor aml y defnyddir y mynediad presennol (sydd â lled mynediad, radiws mynediad/allanfa, a lleiniau gweledd annigonol) gan gerbydau oherwydd y chalet/caban gwyliau yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch defnyddwyr y ffyrdd a llif rhydd y traffig ar hyd y Ffordd Sirol Dosbarth II gyfagos, sef y B4574.

Mae'r cais yn ceisio gwelliannau i'r fynedfa a fydd yn cynnwys trawsblannu'r clawdd ffawydd i ddarparu ar gyfer y lleiniau gweledd gofynnol. Mae Priffyrdd Ceredigion yn fodlon ar y trefniadau hyn yn ddibynnol ar amodau. Dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio'r caban fel llety gwyliau hyd nes bod y gwelliannau arfaethedig i'r mynediad wedi'u cwblhau.

Draenio Tir

Mae'r ymgeisydd yn bwriadu cael gwared ar ddŵr wyneb drwy ffosydd cerrig. Mae draenio tir wedi argymhell, pe bai cyflwr y ddaear yn anaddas, y dylid cyflwyno dull amgen o waredu dŵr wyneb i'r awdurdod i'w asesu.

Amwynder preswyl

Cyflwynwyd un llythyr gwrthwynebu trydydd parti gan breswylwyr yr eiddo cyfagos. Mae'r gwrthwynebiad yn canolbwyntio ar y sŵn, y gerddoriaeth a'r tân gwyllt achlysurol sy'n deillio o'r partiön sy'n digwydd yn y caban gwyliau yn aml.

O ystyried bod deg metr ar hugain neu fwy o bellter rhwng ffin safle'r cais a'r eiddo cyfagos, ac oherwydd bod y math o sŵn a gweithgarwch a ddisgrifir yn debyg i hynny a fyddai fel arfer yn digwydd mewn gardd breswyl, ni ystyrir y byddai caniatáu'r datblygiad yn arwain at unrhyw niwed ychwanegol gormodol i amwynder y breswylfa gyfagos drwy sŵn ac aflonyddwch.

Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â phartiön sy'n digwydd yn aml, ystyrir ei bod yn ddoeth argymhell bod amod ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd cynllunio dilynol sy'n atal chwarae cerddoriaeth wedi'i seinchwyddo rhwng 23:00

ac 08:00.

Yn ogystal, mae'r ymgeisydd wedi cytuno i godi ffens ar hyd ffin yr ardd i roi preifatrwydd ychwanegol i'r breswylfa gyfagos os ystyrir bod hyn yn briodol. Gellir cyflawni hyn mewn amod sydd wedi'i eirio'n briodol.

Am y rhesymau uchod, ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio â maen prawf 7 polisi DM06 y CDLI sy'n ceisio amddiffyn amwynder meddianwyr eiddo cyfagos rhag niwed sylweddol mewn perthynas â phreifatrwydd, sŵn a golygfa.

Y RHESYMAU DROS GYFEIRIO'R CAIS AT Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU:

Mae'r Cynghorydd Rhodri Davies wedi cyfeirio'r cais at y pwyllgor rheoli cynllunio oherwydd y niwed i'r amwynder cyfagos.

ARGYMHELLIAD

Am y rhesymau a amlinellir uchod, argymhellir **cymeradwyo'r** cais yn ddibynnol ar amodau.

Rhif y Cais / Application Reference	A210084
Derbyniwyd / Received	27-01-2021
Y Bwriad / Proposal	Retrospective planning application for consent for a holiday accommodation in a cabin located within the grounds of Porth Elenydd, Devils Bridge.
Lleoliad Safle / Site Location	Porth Elenydd, Devils Bridge, Aberystwyth. SY23 3JN
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mrs Heather Luke, Porth Elenydd, Devils Bridge, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3JN
Asiant / Agent	Mr Alun Charles (Catalina Architecture and Design), The Cambria Marine Terrace, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AZ

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

Porth Elenydd is a detached house occupying a large plot located on the outskirts of Devils Bridge on the B4574 road connecting Devils Bridge to Cwmystwyth.

The applicant has owned and lived in the property since 1984. In 1985/6 the applicant's then husband moved into a caravan within the grounds of Porth Elenydd occupying it until 2001/2. From 2002 until 2006 the caravan was used as a garden room.

In 2006 the applicant took sole possession of the property, the static caravan was refurbished and used as a summer room with occasional sleepovers by the applicant and her grandchildren.

In July 2017 the applicant set up Porth Elenydd as a Holiday Let to help her stay financially independent. At this time the static caravan, was in disrepair and had to be removed.

The static caravan was replaced with an outbuilding, in the same position as the static, using the same electric, drainage and water facilities as the caravan. In September 2018 the applicant also began letting the outbuilding as a holiday let. This work and subsequent use was undertaken without the benefit of planning permission.

DETAILS OF DEVELOPMENT

This application submitted is as a result of Enforcement action by Ceredigion County Council (INV170265) and seeks to retrospectively rectify the breach in planning legislation. The application under consideration is for full retrospective planning permission for the erection of the outbuilding and its use as a holiday let. The application also seeks permission for improvements to the existing access which is considered substandard.

The outbuilding measures 6.09m by 5.25m and is 2.27m in height to the eaves and 3.80m in height to the ridge. External materials include grey Cedral mineral cement board cladding for the walls under a slate roof. Windows and doors are finished in white UPVC. Parking is provide for two cars.

Internal accommodation includes an open plan living, dining, sleeping area, a shower room and separate kitchen.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

National Planning Policy

Future Wales: The National Plan 2040

Planning Policy Wales (Edition 11, February 2021)

Ceredigion Local Development Plan Policies

S01 Sustainable Growth

S03 Development in Rural Service Centres (RSCs)

DM06 Good Design and Placemaking

DM13 Sustainable Drainage Systems

DM18 Special Landscape Areas

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

Cyngor Cymmuned Pontarfynach Community Council – No Objection

Ceredigion Highways – No objection STC

Ceredigion Land Drainage – No Objection STC

Ceredigion Ecology – Did not comment

While Pontarfynach community council do not object to the proposal, they object to the use of retrospective planning applications. Retrospective planning application are a legitimate legislative device used to regularise planning situations where a breach of planning control has occurred.

One third party letter of objection has been received from the residents of the neighbouring property. The objection focuses on the retrospective nature of the planning application and the amenity harm afforded to them as a result of the development by virtue of loud music being played and the lack of fence between the two garden areas.

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Principle of Development

Tourism is one of the County's main employment sectors and indeed one of the objectives of the LDP is to sustainably develop its tourism economy through:

- Encouraging the development of sustainable tourism;
- Assisting in improving the attractiveness of Ceredigion as a year round tourism destination;

- Ensuring that tourism accommodation is developed in a sustainable manner and appropriately located; and
- Encouraging the provision of further tourism attractions and facilities.

The application seeks retrospective planning permission for the erection of a cabin to be used for holiday accommodation and therefore LDP Policy LU14 is of main relevance. The application site lies outside of the Coastal Area as it is eastwards of the A487 and therefore criterion 2 of the policy applies. The policy allows for new holiday cabins and chalets provided that the development meets with the following 4 criteria:

- i. "Where possible it supports strategic tourism nodes;
- ii. It supports the role and function of the settlement within which it is proposed (or otherwise nearest settlement), where possible, by providing additional facilities that are available for use by the community;
- iii. Facilities offered via the site do not affect the vitality of services which already exist within the nearest settlement; and
- iv. Tourism Needs and Development Impact Assessment is submitted as part of the application process"

It is considered that the proposal satisfies the above criteria and will contribute to a general deficiency in tourism accommodation outside of the coastal zone. The tourism impact assessment submitted in support of the planning application states that:

"The holiday accommodation does support the local economy without impacting on the landscape or other facilities within Devils Bridge. The site is within easy walking distance of the Hafod Hotel for evening meals, the local shop for general provisions, and attractions such as the Vale of Rheidol railway, Devils Bridge falls and further afield the Hafod Estate, Nant yr Arian and Aberystwyth".

As discussed the application site lies on the outskirts of Devils Bridge which is identified as a rural service centre within the LDP. The location of the holiday accommodation is therefore considered as being in compliance with the general strategy of the LDP as set out in policies S01-S04, and the development supports the role and function of the settlement in accordance with criterion 2 ii of Policy S04.

Landscape, Design and Character

This development sits within the curtilage of a dwelling, the plot is large and the cabin is situated within a secluded area screened from all directions by vegetation, minimising any impact on neighbours or the landscape. As such it is considered that the proposal would not have an unacceptable impact on the Rheidol Valley special landscape area.

Highways

The applicant accepts that the access in its current form is substandard and the LHA considers that the additional vehicular traffic trips generated by the holiday chalet/cabin using the existing access (which has insufficient access width, entry/exit radii and visibility splays) would have a detrimental effect on road user safety and the free flow of traffic along the adjoining County Class II Road B4574.

The application seeks improvements to the access which will involve the transplantation of the beach hedge to accommodate the required visibility splays. Ceredigion Highways are content with this arrangements subject to conditions. The continued use of the cabin as a holiday let should cease until the proposed access improvements have been made.

Land Drainage

The applicant proposes to dispose of surface water drainage by soakaways Land drainage have recommended that should ground conditions prove unsuitable an alternative method of surface water disposal should be submitted to the authority for assessment.

Residential amenity

One third party letter of objection has been by the residence of the neighbouring property. The objection focuses on the frequent noise, music, and occasional fireworks which are a result of the frequent parties which take place at the holiday cabin.

Given a separation distance of thirty or more metres from the application site boundary and the neighbouring dwelling and the type of noise and activity described as being similar to that which would normally occur in a residential garden it is not considered that allowing the development would result in any undue additional harm on the amenity of the neighbouring residence through noise and disturbance.

However in order to address concerns in regard to parties frequently taking place, it is considered prudent to recommend a condition be attached to any subsequent planning permission preventing the playing of amplified music between the hours of 23:00 – 08:00.

In addition the applicant has agreed to erect a fence along the garden boundary to afford the neighbouring residence additional privacy.

For the above reasons the development is considered to accord with the criterion 7 of policy DM06 of the LDP which seek to protect the amenity of occupiers of nearby properties from significant harm in relation to privacy, noise and outlook.

REASONS FOR REFERRING THE APPLICATION TO THE DEVELOPMENT CONTROL COMMITTEE:

Councillor Rhodri Davies has referred the application to the Development Control Committee due to the harm to the surrounding amenity.

RECOMMENDATION:

For the reasons outline above it is recommended that the application be **Approved** subject to conditions.

2.3. A210291



Rhif y Cais / Application Reference	A210291
Derbyniwyd / Received	22-03-2021
Y Bwriad / Proposal	Erection of three affordable dwellings, including access, parking, landscaping and ancillary works
Lleoliad Safle / Site Location	Land adjacent Maescrug, Pantycrug, Capel Seion, Aberystwyth, SY23 4EF
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr Brian Wilkins, Ty Traeth, Clarach, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DL
Asiant / Agent	Mr A Smith (Simply Planning), Studio 211 Creative Quarter, 8a Morgan Arcade, Cardiff, CF10 1AF

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Parsel o dir hirsgwar yw safle'r cais sydd wedi'i leoli'n ganolog yn y grŵp o anheddau a adwaenir gyda'i gilydd fel Pant-y-Crug. Mae blaen y safle yn wynebu ffordd yr A4120 sy'n cysylltu Aberystwyth a Phontarfynach ac mae ffurf adeiledig ar y ffiniau bob ochr iddo ac yn uniongyrchol gyferbyn ag ef. Mae rwbwl yn gorchuddio rhan o'r tir ac mae rhan o'r tir wedi'i orchuddio â llystyfiant.

Hanes Cynllunio:

A060585 – Cais Cynllunio Amlinellol – Codi Annedd – Cymeradwywyd gydag Amodau(30/11/2006)

A080826 - Cais Cynllunio Llawn - Codi dau dŷ pâr - Gwrthodwyd(12/05/2009)

A110255 - Cais Cynllunio Llawn – Codi dau dŷ pâr – Cymeradwywyd gydag Amodau (23/12/2011)

A120099 - Materion a Gedwir yn ôl - Codi Annedd - Cymeradwywyd gydag Amodau (17/05/2012)

A150969 - Cais Cynllunio Amlinellol - Codi 5 tŷ fforddiadwy yn cynnwys rhes o3 tŷ teras a dau dŷ pâr. Cymeradwywyd gydag Amodau (14/06/2016)

A160646 - Materion a Gedwir yn ôl - Codi 5 tŷ fforddiadwy yn cynnwys rhes o 3 tŷ teras a dau dŷ pâr - Cymeradwywyd gydag Amodau (26/08/2016)

A190441 - Cais Cynllunio Llawn - Codi bloc o dair annedd sy'n cynnwys mynedfa newydd i gerbydau - Gwrthodwyd (30/04/2021)

Mae'r cais cyfredol yn debyg i gais A190441 gan ei fod yn cynnig codi tair annedd ar y safle. Y prif wahaniaeth yw y bydd y tai i gyd yn fforddiadwy ac ni fydd y cynnig yn cynnwys annedd marchnad agored yn rhan o'r gymysgedd.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn i godi 3 annedd fforddiadwy. Bydd yr anheddau arfaethedig yn rhai teras i'w lleoli'n gyfochrog â'r ffordd, a bydd mynediad o'r A4120. Bydd y tair annedd yn rhai deulawr.

Nodir bod gorffeniad y deunyddiau arfaethedig fel a ganlyn:

- Waliau: Wedi'u rendro â gorchudd o goed cedrwydd
- To: Llechi artiffisial ag iddynt ymylon ac arwyneb rhychiog
- Ffenestri/Drysau: UPVC gwyn

Bydd dŵr arwyneb yn cael ei waredu drwy ffosydd cerrig, a charthion drwy gyfleuster parodi drin carthion.

POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)
- Polisi Cynllunio Cymru 11 (Chwefror 2021)
- TAN12 - Dylunio (2016)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

Mae'r polisïau a ganlyn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- SO4: Datblygu Mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'
- S05 Tai Fforddiadwy
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob Datblygiad Preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 Dylunio a Thirweddu
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

Canllawiau Cynllunio Atodol Mabwysiedig Perthnasol:

- Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy
- Canllawiau Cynllunio Atodol Gwarchod Natur
- Canllawiau Cynllunio Atodol Dylunio a'r Amgylchedd Adeiledig
- Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hynny ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gall, yn rhesymol, i atal troseddau ac anhrefn. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd hon wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd mawr neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dynodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig' sef oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghymesur o isel. Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r uchod wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt yn fwy nag ar unrhyw un arall.

DEDDF LLESIAENT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth ymarfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant sy'n rhan o'r Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan roi ystyriaeth i ddyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Melindwr Community Council – Dim ymateb

Cyfoeth Naturiol Cymru – Dim gwrthwynebiad ond bydd amodau

Draenio Tir - Dim gwrthwynebiad, Sylwadau

Ecoleg - Dim ymateb

Derbyniwyd sylwadau trydydd parti gan breswylwr Maes Gwyn, Pantycruga phryderon ynghylch draenio i gwrs dŵr Paith.

CASGLIAD

Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Egwyddor Datblygu

Mae safle'r cais yn gorwedd o fewn 'Lleoliadau Eraill' fel a ddiffinnir yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig lle bo datblygiad yn cael ei reoli'n dynn er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy ac amddiffyn cefn gwlad agored.

Mae Polisi S04 y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi bod tai yn gyffredinol yn anaddas mewn 'lleoliadau eraill' oni bai y cyfiawnheir eu bod yn seiliedig ar fodloni angen am dai fforddiadwy nas diwallwyd y gellir ei ddangos yn yr ardal, a'i fod yn cydymffurfio â Pholisi S05; neu'r angen am annedd menter wledig yn unol â TAN6. Mae'r cais cynllunio hwn ar gyfer tair annedd fforddiadwy. Lleolir safle'r cais o fewn grŵp o anheddau a anwaenir fel Pant-y-Crug. Ystyrir bod y lleoliad, at ddibenion polisi cynllunio, yn 'Lleoliadau Eraill' neu gefn gwlad agored. Nid yw'r anheddiad yn 'Anheddiad Cyswllt' yn y Cynllun Datblygu Lleol ac ystyrir ei fod yn lleoliad llai cynaliadwy ar gyfer datblygu. Ychydig o gyfleusterau sydd ym Mhant-y-Crug ac felly byddai'r trigolion yn ddibynol ar ddefnyddio cerbydau preifat i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hyn yn groes i bolisi cynllunio lleol a chenedlaethol sy'n ceisio hyrwyddo dull cynaliadwy o deithio drwy sicrhau bod datblygiadau tai yn cael eu hadeiladu mewn lleoliadau o lle y gellir cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded a beicio yn y lle cyntaf, yna drwy gludiant cyhoeddus ac yn olaf drwy gerbydau modur preifat. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan bod yn rhaid i adeilad newydd mewn cefn gwlad agored yn bell o aneddiadau presennol barhau i gael eu rheoli'n dynn ac mae darparu tair annedd yn y lleoliad hwn yn groes i bolisi cynllunio lleol a chenedlaethol.

Mae Polisi S04 Maen Prawf 2c y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'n benodol na ddylai datblygiadau tai mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' ddatblygu ar raddfa gymesur uwch na'r Ganolfan Wasanaeth berthnasol (Canolfan Wasanaeth Aberystwyth yn yr achos hwn).¹ Mae'r cydbwysedd yn y grŵp anheddiad hwn yn anghywir ar hyn o bryd, a rhoddir caniatâd i ddatblygu mwy mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill nag a ganiateir gan y strategaeth. Felly, os rhoddir mwy o ganiatâd yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', bydd yn mynd yn fwy anodd cyflawni'r Strategaeth mewn perthynas â'r Grŵp Strategaeth unigol hwn, a bydd yn mynd yn fwy anodd cyflawni cynllun cyffredinol y Strategaeth. Mae'r cais yn methu, felly, ar sail maen prawf 2c ac o ganlyniad mae'n methu o ran Polisi S04 yn ei gyfanrwydd.

Cyflwynwyd asesiad hyfywedd i roi gwybodaeth nad yw cyflenwi'r 5 uned fforddiadwy a gymeradwywyd o dan Ganiatâd Amlinellol A150969 a Chaniatâd Materion a Gedwir yn ôl

A160646 bellach yn hyfyw. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod hyn yn ddigon o gyfiawnhad i ganiatáu cael mwy o anheddau yn y lleoliad anghynaliadwy hwn, a ddynodir yn 'Lleoliadau Eraill' at ddibenion y Cynllun Datblygu Lleol. Yn yr un modd, byddai lleihau cyfradd ddisgownt y tai fforddiadwy o 30% i 15% yn gwneud yr anheddau arfaethedig yn llai fforddiadwy ac nid yw'n cyd-fynd â darpariaethau Polisi S05.

Mae anheddau fforddiadwy ychwanegol yn y lleoliad hwn ar gyfradd ostyngol tai fforddiadwy yn groes i strategaeth gyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol ac yn groes i bolisi lleol a chenedlaethol.

O oes tystiolaeth o'r angen am dai fforddiadwy yn y lleoliad hwn?

Cefnogir tai fforddiadwy mewn 'lleoliadau eraill' dim ond pan y dynodir bod angen nas diwallwyd yn yr ardal, fel a nodir ym Mholisi S04 y Cynllun Datblygu Lleol. Mae paragraff 6.162 y Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn nodi y dylai'r cyfiawnhad am annedd fforddiadwy ddangos nad oes modd bodloni angen nas diwallwyd mewn Canolfan Wasanaeth neu Anheddiad Cyswllt.

Ni chafwyd tystiolaeth i ddangos bod angen am dai fforddiadwy yn ardal uniongyrchol Pant-y-Crug, ac ni ddangoswyd chwaith nad oes modd diwallu'r angen hwn am dai fforddiadwy mewn Aneddiadau Cyswllt Canolfan Wasanaeth gyfagos. Cwblhawyd nifer o unedau fforddiadwy yn ddiweddar ym Mhant-y-Crug ac ar hyn o bryd mae 41 caniatâd heb ei weithredu mewn 'Lleoliadau Eraill' yng ngrŵp anheddiad Aberystwyth. Ystyrir bod y caniatadau hyn sydd heb eu gweithredu a heb eu cwblhau yn fwy na digon i wasanaethu anghenion yr ardal.

Nid oes tystiolaeth o angen am fwy o dai fforddiadwy yn y lleoliad hwn, ac felly nid yw polisi cynllunio lleol a chenedlaethol yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu.

Nid yw'r Awdurdod Prifffyrdd Lleol wedi gwrthwynebu'r cynnig, yn ddibynnol ar amodau.

Cafwyd sylwadau trydydd parti ynghylch draenio ar y safle; fodd bynnag, ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan naill ai'r Awdurdod Draenio Tir, Dŵr Cymru na Chyfoeth Naturiol Cymru.

Byddai cymeradwyaeth SDCau yn angenrheidiol cyn dechrau datblygu ar y safle.

Casgliad

Mae'r datblygiad yn cynnig 3 annedd fforddiadwy ar y safle ar gyfradd ddisgownt ostyngol o 15%. Mae caniatâd ar y safle ar hyn o bryd ar gyfer 2 annedd fforddiadwy, ar gyfradd ddisgownt o 30%.

Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn groes i bolisi, gan nad oes cyfiawnhad digonol ar gyfer caniatáu anheddau ychwanegol ym Mhant-y-Crug. Ystyrir bod y lleoliad ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn llai cynaliadwy ac yn anaddas ar gyfer datblygu preswyl ychwanegol ar hyn o bryd. Byddai caniatáu datblygu pellach yn y lleoliad hwn yn groes i strategaeth gyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol ac yn groes i ddarpariaethau Polisiâu S01, S04 ac S05 y Cynllun Datblygu Lleol.

Awdurdod Dirprwyedig:

Mae'r Aelod Lleol, y Cynghorydd Rhodri Davies, wedi gofyn ar i'r cais gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i'w ystyried am y rhesymau a ganlyn:

- Yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardal
- Cefnogi'r genhedlaeth iau i aros yn yr ardal, yn enwedig o ystyried y newyddion diweddar ynghylch prisiau eiddo drud nad yw'r bobl leol yn gallu eu fforddio
- Mae'r lleoliad yn cael ei weld fel datblygiad mewnlenni

ARGYMHELLIAD:

Gwrthod, gan ei fod yn groes i Bolisiâu S01, S04 ac S05 y Cynllun Datblygu Lleol.

Rhif y Cais / Application Reference	A210291
Derbyniwyd / Received	22-03-2021
Y Bwriad / Proposal	Erection of three affordable dwellings, including access, parking, landscaping and ancillary works
Lleoliad Safle / Site Location	Land adjacent Maescrug, Pantycrug, Capel Seion, Aberystwyth, SY23 4EF
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr Brian Wilkins, Ty Traeth, Clarach, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DL
Asiant / Agent	Mr A Smith (Simply Planning), Studio 211 Creative Quarter, 8a Morgan Arcade, Cardiff, CF10 1AF

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site is a rectangular parcel of land centrally located within the group of dwellings collectively known as Pant-y-Crug. The site fronts onto the A4120 road that connects Aberystwyth with Devil's Bridge and is bordered by built form on its flanks and directly opposite. The land is partly overlaid with hard-core and partly overgrown with vegetation.

Planning History:

A060585 – Outline Planning – Erection of Dwelling – Approved Subject to Conditions(30/11/2006)

A080826 – Full Planning – Erection of two semi-detached dwellings – Refused(12/05/2009)

A110255 – Full Planning – Erection of a pari of Semi-detached houses – ApprovedSubject to Conditions (23/12/2011)

A120099 – Reserved Matters – Erection of a Dwelling – Approved Subject toConditions (17/05/2012)

A150969 – Outline Planning – Erection of 5 affordable houses comprising of a row of3 terrace houses and a pair of semi-detached houses. Approved subject to Conditions (14/06/2016)

A160646 – Reserved Matters – Erection of 5 affordable houses comprising of a row of 3 terrace houses and a pair of semi-detached houses – Approved Subject to Conditions (26/08/2016)

A190441 – Full Planning - Erection of a block of three dwellings, inclusive of a new vehicular access – Refused (30/04/2021)

The current application is similar to application A190441 in that it proposes 3 dwellings on the site. The main difference is that the houses will all be affordable and the proposal will not include an open market dwelling as part of the mix.

DETAILS OF DEVELOPMENT

The application seeks full planning permission for the erection of 3 affordable dwellings. The proposed dwellings will be terraced and be positioned parallel with the road with access gained from the A4120. All three dwellings will be two storey in height.

The proposed material finishes have been stated as being:

- Walls: Render with cedar cladding
- Roof: Man made riven faced and edge slates
- Windows/ Doors: white UPVC

Surface water will be disposed of via soakaways and foul sewage via PackageTreatment Plant.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

National Planning Policy

- Future Wales: The National Plan 2040 (February 2021)
- Planning Policy Wales 11 (February 2021)
- TAN12 Design (2016)
- TAN6 Planning for Sustainable Rural Communities (2010)

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in 'Linked Settlements and Other Locations
- S05 Affordable Housing
- LU02 Requirements Regarding All Residential Developments
- LU04 Meeting a Range of Housing Needs
- LU05 Securing the Delivery of Housing Development
- DM03 Sustainable Travel
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM10 Design and Landscaping
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity
- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape

Relevant adopted Supplementary Planning Guidance's:

- Affordable Housing SPG
- Nature Conservation SPG
- Built Environment and Design SPG
- CCC Parking Standards SPG

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local

Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- Encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low. The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven wellbeing goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

Cyngor Cymuned Melindwr Community Council – No Response

Highways – No Objections Subject to Conditions

Land Drainage – No Objection, Comments

Ecology – No Response

Third party representation was received from the occupier of Maes Gwyn, Pantycrug with concerns over drainage into the Paith watercourse.

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise".

Principle of Development

The application site lies within 'Other Locations' as identified within the adopted Local Development Plan (LDP) where development is strictly controlled in the interest of achieving sustainable development and protecting the open countryside.

LDP Policy S04 states that general housing is inappropriate within 'other locations' unless justified on the basis that it meets a demonstrated unmet affordable housing need in the locality and accords with Policy S05; or need for a rural enterprise dwelling in line with TAN6. This planning application is for three affordable dwellings. The application site is located within a group of dwellings known as Pant-y-Crug. The location is considered as 'Other Locations' or open countryside for planning policy purposes. The settlement is not a named 'Linked Settlement' within the LDP and is considered a less sustainable location for development. Pant-y-Crug has little facilities and occupiers would therefore be reliant on the use of a private vehicle to access services and facilities. This is contrary to national and local planning policy which seek to promote sustainable means of travel by ensuring that housing development are built in locations where services and facilities can be accessed in the first instance by walking and cycling, then by public transport and then finally by private motor vehicles. Planning Policy Wales states that new building in the open countryside away from existing settlements must continue to be strictly controlled, the provision of three dwellings at this location is contrary to both local and national planning policy.

Policy S04 Criteria 2c of the LDP stipulates that housing development in 'Linked Settlements and Other Locations' should not come forward at a greater proportionate rate than the relevant Service Centre (in this case, Aberystwyth Service Centre). The balance in this settlement group at present is incorrect, with more development being permitted in 'Linked Settlements and Other Locations' than is allowed for by the strategy. Therefore, if more permissions are allowed in the "Linked Settlements and Other Locations" the more difficult it will become to achieve the Strategy in relation to this individual Settlement Group and the overall Plan Strategy will become less achievable. The application therefore fails on criterion 2c and as a result it fails with regard to Policy S04 as a whole.

A viability assessment has been submitted to provide information that delivering the 5 affordable units approved under Outline Consent A150969 and Reserved Matters Consent A160646 is no longer viable. However, the LPA do not consider this sufficient justification for allowing further dwellings at this unsustainable location identified as 'Other Locations' for the purposes of the LDP. Similarly, reducing the discounted rate of the affordable housing from 30% to 15% would render the proposed dwellings less affordable and does not attune with the provisions of Policy S05.

Additional affordable dwellings at this location at a discounted affordable housing rate is contrary to the overall strategy of the LDP and is contrary to both national and local planning policy.

